# Pecyn Dogfen Cyhoeddus

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy AHNE
Park Gwledig Loggerheads, Yr Wyddgrug, Sir Ddinbych CH7 5LH

Clwydian Range and Dee Valley AONB
Loggerheads Country Park, Nr. Mold, Denbighshire CH7 5LH

Ffon | Tel: 01352 810614 | Ffacs | Fax: 01352 810644
E-bost | E-mail: clwydianrangeanddeevalley@denbighshire.gov.uk
Gwefan: www.ahnebryniauclwydadyffryndyfrdwy.org.uk/
Web: www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/

www.facebook.com/Clwydian Range & Dee Valley AONB
@Clwyd_Dee_AONB

| | | | |
|---|---|---|---|
| At: | Aelodau'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy | Dyddiad: | Dydd Gwener, 16 Mehefin 2023 |
| | | Rhif Union: | 01824 712589 |
| | | Ebost: | democrataidd@sirddinbych.gov.uk |

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Dydd Gwener, 23 Mehefin 2023** am **10.00 am** yn **Ystafell Gyfarfodl, Neuadd y Dref, Wrecsam a thrwy gynhadledd fideo**.

Yn gywir iawn

G Williams
Swyddog Monitro

**AGENDA**

**1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**

**2 COFNODION DRAFFT CYFARFOD BLAENOROL Y CYD-BWYLLGOR (HS)** (Tudalennau 5 - 10)

Ystyried cofnodion (copi ynghlwm) cyfarfod diwethaf Cyd-bwyllgor y AHNE a gynhaliwyd ar 17 Mawrth 2023.

**3 COFNODION DRAFFT CYFARFOD PARTNERIAETH YR AHNE A GYNHALIWYD AR 19 MAI 2023 (HS)** (Tudalennau 11 - 16)

Nodi cofnodion (copïau ynghlwm) cyfarfodydd blaenorol Partneriaeth yr AHNE a gynhaliwyd ar 19 Mai 2023.

Cyngor sir ddinbych denbighshire County Council — wrexham County Borough / Bwrdeistref Sirol wrecsam — Cyngor Sir y Fflint Flintshire County Council

**4 CRYNODEB O'N PARTNERIAETH EIN TIRLUN DARLUNIADWY 2020-23 (ER GWYBODAETH YN UNIG) HS/ DS** (Tudalennau 17 - 24)

Derbyn adroddiad (copi ynghlwm) er gwybodaeth ar lwyddiannau allweddol prosiect Ein Tirwedd Darluniadwy 2018-23 gan y Swyddog yr AHNE.

**5 CYFLWYNIADAU AR BROSIECT DYNODIAD PARC CENEDLAETHOL GOGLEDD DDWYRAIN**

Cael cyflwyniad gan Ash Pierce, Rheolwr Rhaglen (Cyfoeth Naturiol Cymru)

**6 CRYNODEB O GEISIADAU CYNLLUNIO 2022 - 2023 (ER GWYBODAETH YN UNIG) (DW)** (Tudalennau 25 - 28)

I dderbyn, er gwybodaeth, adroddiad crynodeb o'r Ceisiadau Cynllunio a dderbyniwyd gan y Swyddog AHNE (copi ynghlwm).

**7 ADRODDIAD ARIANNOL DATGANIAD BLYNYDDOL Y CYD-BWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG) (SG A PO)** (Tudalennau 29 - 48)

Ystyried adroddiad (copi ynghlwm) gan y Pennaeth Cyllid ac Eiddo a'r Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd.

**8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (EITEM SEFYDLOG) (HS)** (Tudalennau 49 - 54)

Ystyried y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol (copi ynghlwm) gan y Swyddog AHNE.

**9 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL**

Er gwybodaeth, dyddiadau cyfarfodydd nesaf Cyd-bwyllgor yr AHNE yw:

- 17 Tachwedd 2023 (Cyngor Sir y Fflint)

**AELODAETH**

**Y Cynghorwyr**

David Healey
Dave Hughes
Hugh Jones
Win Mullen-James
Nigel Williams
Emrys Wynne

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**CYD-BWYLLGOR ARDAL O HARDDWCH NATURIOL EITHRIADOL BRYNIAU CLWYD A DYFFRYN DYFRDWY**

Cofnodion cyfarfod o'r Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Rhuthun a thrwy gynhadledd fideo, Dydd Gwener, 17 Mawrth 2023 am 10.00 am.

**AELODAU CYD-BWYLLGOR YR AHNE A OEDD YN BRESENNOL**

Y Cynghorwyr Win Mullen-James (CSDd), David Healey (CSFf), Dave Hughes (CSFf), Hugh Jones (CBSW) a Nigel Williams (CBSW)

**HEFYD YN BRESENNOL**

Steve Gadd (Pennaeth Cyllid ac Eiddo CSDd), Mike Bather (Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam), Ceri Lloyd (Swyddog Cronfa Datblygu Cynaliadwy AHNE), Paula O'Hanlon (Uwch Swyddog Cyllid, CSDd), Howard Sutcliffe (Swyddog AHNE), David Shiel (Rheolwr Ardal AHNE), Karen Weaver (Cydlynydd AHNE), Clare Lord (Cyfreithwraig/Arweinydd Tîm Lleoedd) Stephanie Jones (Gweinyddwr Pwyllgorau/Gwestai Zoom) a Karen Evans (Cydlynydd Craffu/Cofnodion) a Marian Harvey (Cyfieithydd)

Roedd y Cynghorwyr Karen Edwards a James Elson (CSDd) yn bresennol fel arsylwyr.

**1 CYFLWYNIADAU, YMDDIHEURIADAU A DATGAN CYSYLLTIAD**

Agorwyd y cyfarfod gan Howard Sutcliffe, Swyddog AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a Rheolwr y Gwasanaethau Ceidwaid. Croesawodd bawb i'r cyfarfod ac awgrymodd wrth y Cadeirydd, y Cynghorydd David Hughes a'r Is-Gadeirydd, y Cynghorydd Nigel Williams fod Win Mullen-James - a oedd yn bresennol yn Siambr y Cyngor - yn cadeirio'r cyfarfod oherwydd bod modd iddynt weld rhai a oedd yn bresennol ar-lein ac yn y Siambr. Cytunodd y Cynghorwyr Hughes a Williams.

Cafwyd ymddiheuriadau gan Aelod y Cyd-bwyllgor, y Cynghorydd Emrys Wynne (Cyngor Sir Ddinbych).

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

**2 COFNODION DRAFFT CYFARFOD Y CYDBWYLLGOR BLAENOROL (HS)**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022.

Cytunwyd bod y cofnodion yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

Eitem 4 – Amrywiad i gytundeb cyfreithiol i gynyddu aelodaeth y Cyd-bwyllgor i dri fesul Awdurdod. Nodwyd bod Cyfansoddiad Cyngor Sir Ddinbych yn caniatáu enwebu dirprwy gynrychiolydd pe na bai unrhyw un o'i aelodau'n gallu mynychu.

Nid oedd cadarnhad wedi dod i law o ran sefyllfa Cyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam. Swyddog AHNE i ddilyn trywydd hyn gyda CBSW.

Eitem 6 – Cofnodion Drafft cyfarfod blaenorol Partneriaeth yr AHNE. Roedd gwobr yn cael ei chyflwyno i'r Grid Cenedlaethol am eu Menter Gwella Tirwedd. Roedd gwahoddiadau wedi'u dosbarthu i'r seremoni wobrwyo.

**PENDERFYNWYD:** *Bod cofnodion cyfarfod Cyd-bwyllgor Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 10 Tachwedd 2022 yn cael eu cymeradwyo.*

**3 COFNODION DRAFFT PARTNERIAETH AHNE (HS)**

Derbyniwyd cofnodion drafft cyfarfod Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2022 er gwybodaeth.

Roedd nifer o Wasanaethau wedi bod yn rhan o gynllun gweithredu er mwyn osgoi'r tagfeydd yn Rhaeadr y Bedol yn ystod y blynyddoedd blaenorol gan gynnwys:

- Rhwystr uchder ar y maes parcio a fyddai'n atal cerbydau mawr rhag mynd i mewn i'r maes parcio.
- Sicrhau llinellau melyn gweladwy.

Cafodd Baddondy Rhufeinig Prestatyn ei gynnwys mewn arddangosfa yn Llyfrgell Prestatyn, a oedd yn boblogaidd iawn, yn enwedig gyda grwpiau ysgol.

**PENDERFYNWYD:** *Nodi cofnodion cyfarfod Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy a gynhaliwyd ar 14 Hydref 2022.*

**4 COFNODION DRAFFT EIN PARTNERIAETH TIRLUN DENIADOL (DS)**

Derbyniwyd cofnodion drafft cyfarfod Partneriaeth Ein Tirlun Darluniadwy a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023 er gwybodaeth.

Roedd gwaith wedi'i gwblhau ym Mhorthdy Castell Dinas Brân. Roedd y rwbel a gafodd ei symud fel rhan o'r gwaith cloddio wedi'i ddefnyddio i wella'r llwybr mynediad igam-ogam.

Byddai'r gwasanaeth Bws Darluniadwy yn rhedeg am y drydedd flwyddyn o amgylch safleoedd yn ardal Dyffryn Dyfrdwy gan gynnwys maes parcio Pafiliwn Llangollen, er mwyn helpu i liniaru rhai o'r materion parcio.

Roedd gwaith paratoi'n mynd rhagddo gan weithio gydag artistiaid lleol a chymunedau ar gyfer arddangosfa olaf y flwyddyn yn Oriel Dory yn Llangollen.

Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal rhwng y Bartneriaeth a chyllid y Loteri am bosibilrwydd o ymestyn y prosiect, i wneud iawn am y 2 flynedd a gollwyd i gyfyngiadau Covid.

**PENDERFYNWYD***: nodi cofnodion drafft cyfarfod Partneriaeth Ein Tirlun Darluniadwy a gynhaliwyd ar 14 Chwefror 2023.*

**5 ADOLYGIAD 10 MLYNEDD A DIWEDDARIAD LLYWODRAETHU AHNE 2023 AR LAFAR (HS)**

Atgoffodd Swyddog yr AHNE a Rheolwr y Gwasanaethau Ceidwaid, Howard Sutcliffe (HS) y Pwyllgor fod y cytundeb cyfreithiol ar gyfer y Cyd-bwyllgor wedi'i adolygu a'i ddiweddaru 18 mis yn ôl. Wrth symud ymlaen, byddai adolygiad yn cael ei gynnal o'r Cylch Gorchwyl ar gyfer y Bartneriaeth a chylch gorchwyl newydd ar gyfer y Cefnogwyr, yn ogystal ag adolygu'r gweithgorau, gan eu cysylltu â phenawdau penodau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun Rheoli.

Roedd ymgyrch recriwtio ar gyfer Cefnogwyr AHNE o Gynghorau Cymuned i gynorthwyo â gwaith cadwraeth ymarferol a stiwardio ardaloedd prysur ar benwythnosau yn mynd rhagddo. Bu cyfarfod yng Ngholeg Llysfasi a groesawyd, roedd adborth yn cynnwys awydd am gyswllt mwy rheolaidd.

Byddai hyfforddiant ar gyfer Cefnogwyr AHNE / ceidwaid gwirfoddol yn dechrau cyn hir.

**PENDERFYNWYD***: nodi'r diweddariad ar yr adolygiad 10 mlynedd a llywodraethu'r AHNE.*

**6 ADRODDIAD ARIANNOL BLYNYDDOL CYDBWYLLGOR (EITEM SEFYDLOG)(SG A PO'H)**

Dywedodd y Pennaeth Cyllid ac Eiddo, Steve Gadd (SG) nad y datganiad blynyddol oedd yr adroddiad – roedd hwnnw wedi'i gymeradwyo yn y cyfarfod blaenorol – ond adroddiad monitro arferol oedd hwn.

Roedd yr adroddiad yn dangos nad oedd achos pryderu, er gwaetha'r cyfnod anodd o chwyddiant uwch. Ni fu unrhyw orwariant ac o ganlyniad i arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru, dim ond ychydig o gyllid a ddefnyddiwyd o'r cronfeydd wrth gefn, a fyddai'n cael ei gario ymlaen i'r flwyddyn ariannol nesaf.

Diolchodd y Pwyllgor i'r Uwch Swyddog Cyllid a Sicrwydd, Paula O'Hanlon, am ei chymorth parhaus â cheisiadau grant a chyllidebu ac ati, gan bwysleisio pwysigrwydd dilyniant ar ddarparu prosiectau'r AHNE.

**PENDERFYNWYD**: *nodi Sefyllfa Derfynol a Chyfrifon 2022/23 Cyd-bwyllgor yr AHNE.*

**7 DIWEDDARIAD PARC CENEDLAETHOL AR GYFER GOGLEDD DDWYRAIN CYMRU (CNC)**

Rhoddodd HS y wybodaeth ddiweddaraf am roi Statws Parc Cenedlaethol yng Ngogledd Ddwyrain Cymru o neges e-bost a ddaeth i law gan Gyfoeth Naturiol Cymru (CNC). Eglurodd ei bod yn broses ddeddfwriaethol araf, ond gobeithiwyd y

byddai modd sefydlu statws Parc Cenedlaethol cyn diwedd tymor y Senedd (Mai 2026).

Roedd tîm cyfan wedi'i benodi i'r prosiect yn 2022 ac roeddent wedi dechrau gwaith yn yr ardal chwilio. Rhagwelwyd y byddent mewn sefyllfa cyn hir i rannu'r wybodaeth honno gyda budd-ddeiliaid – Awdurdodau Lleol a Chyd-bwyllgor yr AHNE ac ati. Byddai cynrychiolydd o CNC, Ash Pierce, yn cael gwahoddiad i gyfarfod nesaf Cyd-bwyllgor yr AHNE ar 23 Mehefin.

Gofynnodd Aelodau'r Pwyllgor i Gyd-bwyllgor yr AHNE fod yn rhan o ymgynghoriad ystyrlon dros yr ardal chwilio a gytunwyd yn hytrach na'i fod yn cael ei ddarparu fel fait accompli.

**PENDERFYNWYD:**

I. *Bod diweddariad e-bost CNC yn cael ei ddosbarthu i aelodau Cyd-bwyllgor yr AHNE a*
II. *bod yr adroddiad diweddaru ar Barc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru yn cael ei nodi.*

## 8 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL (EITEM SEFYDLOG)

Cyflwynodd HS y rhaglen gwaith i'r dyfodol a rhoddodd ddiweddariad ar lafar ar gynnydd yr eitemau a restrwyd, gan amlygu:

- Roedd newidiadau i ddyraniadau grant CNC gan arwain at golli £20,000 wedi'i gwmpasu gan Gyllid Llenwi Bwlch Llywodraeth Cymru.
- Roedd y Cynllun Twristiaeth yn datblygu, roedd Eryri Bywiol wedi'u comisiynu i ddarparu golwg ar y cyd.
- Roedd gan raglen Tirweddau Cynaliadwy, Lleoedd Cynaliadwy ddwy flynedd arall i redeg.
- Roedd dau Swyddog Ffermio/Ymgysylltu wedi'u penodi.
- Roedd prosiect Awyr Dywyll Cymru Gyfan yn datblygu'n dda. Roedd 5 digwyddiad wedi'u cynnal yn AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy fel rhan o'r prosiect Awyr Dywyll.
- Roedd cais wedi'i gyflwyno i'r Gymdeithas Awyr Dywyll Ryngwladol – dim ond 8 cais oedd yn cael eu derbyn bob blwyddyn.
- Roedd Canllawiau Cynllunio Atodol Goleuo Da wedi'u cymeradwyo ar gyfer Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam – roedd Cyngor Sir y Fflint yn gweithio ar ei fabwysiadu.

**PENDERFYNWYD:** *nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

## 9 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y DYFODOL

Cynigiwyd bod y Pwyllgor yn cynnal cyfarfod byr ar 23 Mehefin 2023 ac wedyn taith o amgylch yr AHNE [*Karen Weaver i wirio argaeledd a threfnu*]

**PENDERFYNWYD:** *nodi dyddiadau cyfarfodydd y dyfodol.*

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.45 am**

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Cyfarfod Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE)**
**Dydd Gwener 19 Mai 2023**
**am 10:00**
**Coleg Cambria, Safle Llaneurgain**

Yn bresennol

**Aelodau Partneriaeth yr AHNE**

Cadeirydd y Bartneriaeth
Andrew Worthington OBE

Y Cynghorydd Dave Hughes CSyFf
(Cadeirydd y Cyd-bwyllgor)
Y Cynghorydd David Healey CSyFf

Cynrychiolydd Buddion Tirwedd
Michael Skuse

Cynrychiolydd Buddion Trefol
Ian Papworth

Cynrychiolydd yr Amgylchedd Naturiol
Les Starling

Cynrychiolwyr Rheoli Tir
Huw Morgan, Sandy Archdale

Cynrychiolydd Hamdden a Hawliau Tramwy
John Roberts

Cynrychiolwyr Treftadaeth a Buddion Gwledig
Christine Evans, Fiona Gale

Cynrychiolydd Buddion Unigol
David Davies

**Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy**

Howard Sutcliffe — Swyddog AHNE
David Shiel — Rheolwr Ardal yr AHNE
Karen Weaver — Cydlynydd yr AHNE
Steve Williams — Ceidwad Cefn Gwlad a Swyddog Prosiect
Graham Berry — Swyddog Rhostir
Ros Stockdale — Swyddog Datblygu
Huw Morgan — Adnoddau Naturiol a Swyddog Ffermio

Cynrychiolydd Cyngor Sir y Fflint
Tom Woodall — Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol

Cynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru
Richard Dearing

Cynrychiolydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
Sarah Brett — Swyddog Cynllunio a Pholisi

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan:
**Mike Bather, y Cynghorydd Paul Cunningham, Paul Evans, Fiona Grant, y Cynghorydd Jon Harland, y Cynghorydd Martyn Hogg, Del Roberts Jones, Ceri Lloyd, y Cynghorydd Win Mullen-James, Helen Mrowiec, Rajan Madhok, y Cynghorydd Rondo Roberts, y Cynghorydd Anthony Wedlake a Kate Thomson**

1.
2.
3.
4.
5.
6. **Croeso ac Ymddiheuriadau**

Agorodd y Cadeirydd y cyfarfod a chroesawodd yr aelod newydd Sarah Brett, (Swyddog Cynllunio a Pholisi Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam). Gwnaethpwyd cyflwyniadau o amgylch y bwrdd.

7. **Nodiadau'r Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy**

Rhoddodd David Shiel, Rheolwr Ardal AHNE y wybodaeth ddiweddaraf am y prosiect:

2a <u>Gwella'r Olygfa – Coed Jeffrey ym Mhontcysyllte</u>

Gwnaeth Cam 2 y gwaith contractwyr a ddechreuodd ar 12 Rhagfyr barhau ym mis Ionawr 2023 ar hyd yr Afon Dyfrdwy o Draphont DdŴr Pontcysyllte tuag at Barc Gwledig Tŷ Mawr. Cafwyd effaith fawr ar olygfeydd hyd at yr afon a phileri'r draphont ddŵr ac yr oedd y gwaith bellach wedi'i gwblhau.

<u>Dehongli</u> - Cafodd paneli dehongli newydd eu gosod a oedd yn egluro hanes cyfan y lleoliad sy'n Safle Treftadaeth y Byd.

<u>Ymgysylltu â Chymunedau</u> - Cynhaliwyd sesiynau gweithdy yng Nghefn Mawr â rhai grwpiau dan anfantais.

<u>Digwyddiad Camera Obscura - Castell Dinas Brân</u>

Byddai digwyddiad cymunedol cyffrous yn cael ei gynnal ar 1 Gorffennaf yng Nghastell Dinas Brân. Byddai'r digwyddiad yn gam yn ôl i'r gorffennol i ddarganfod hanes Castell Dinas Brân ar hyd yr oesoedd. Byddai gweithgareddau i'r teulu cyfan, yn cynnwys defnyddio Camera Obscura y prosiect, siop losin Fictoraidd, actorion, hen bortreadau, gweithdai paentio tirluniau, gemau traddodiadol a mwy.

Byddai arddangosfa gelf derfynol yn cael ei chynnal yn Oriel Dory, Llangollen, yn yr hydref.
Roedd llyfr am y prosiect yn cael ei ddrafftio.

2b Eglurodd David fod dwy flynedd a hanner o gyfnod y prosiect yn ystod covid/y cyfnod clo, a bod y prosiect i fod i ddod i ben ym mis Tachwedd. Roedd trafodaethau'n cael eu cynnal gyda Chronfa Dreftadaeth y Loteri ynghylch ymestyn y prosiect, i gynnal rhagor o weithdai gyda grwpiau lleol, ac er mwyn i ragor o waith gael ei wneud ar bwysau hamdden.
Gwnaeth y Cadeirydd ddiolch i David a Hannah am eu holl waith.

Cam Gweithredu

- Gofyn i Hannah Marubbi, Swyddog Ein Tirlun Daluniadwy, roi cyflwyniad yng nghyfarfod y Bartneriaeth yn y dyfodol.

8. **Adolygu Aelodaeth Gweithgor yr AHNE**

Cafwyd cyflwyniad PowerPoint gan Reolwr Ardal yr AHNE, David Shiel, yn egluro mai'r Cynllun Rheoli (a fabwysiadwyd ym mis Tachwedd) fyddai canolbwynt gwaith y Gweithgorau, ac y byddai nodweddion arbennig a rhinweddau'r AHNE yn hollbwysig.
Ychwanegodd fod meysydd/materion newydd wedi'u hychwanegu at y cynllun newydd yn cynnwys newid hinsawdd, argyfyngau natur a hinsawdd, a busnesau gwledig.
Eglurodd David fod amrywiaeth o grwpiau a phrosiectau ar y gweill nad oedden nhw'n adrodd yn ôl i'r Bartneriaeth, er enghraifft y Fforwm Mynediad Lleol, Grwpiau Twristiaeth, Prosiect Pori, Prosiect Rhostir. Dylid cyfeirio'r holl waith hwn yn ôl i'r Bartneriaeth. Roedd y Swyddog Datblygu, Ros Stockdale wedi gwneud ymarfer mapio o'r Gweithgorau ac wedi nodi nad oedd rhai o'r rhain wedi cyfarfod ers cryn amser. Tybiwyd felly nad oedd angen iddyn nhw gyfarfod ac efallai y byddai grwpiau tasg a gorffen yn cael eu hystyried ar gyfer rhai meysydd gwaith. Byddai hi'n monitro ac yn adolygu camau gweithredu'r grwpiau.

3a Y grwpiau arfaethedig newydd oedd:

1. Cymeriad Tirwedd a'r Amgylchedd Adeiledig

2. Cynefinoedd a Bywyd Gwyllt
3. Yr Amgylchedd Hanesyddol
4. Mynediad, Hamdden a Thwristiaeth
5. Diwylliant a Phobl

3b Mynegodd Mrs Archdale bryderon nad oedd rhai o'i sylwadau wedi'u cynnwys yn y ddogfen a bod y Gymdeithas Tir a Busnes, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr ac Undeb Amaethwyr Cymru yn bresennol ond nad oedden nhw'n teimlo bod y gweithdy'n ddefnyddiol. Ymatebodd Howard Sutcliffe drwy ddweud fod gan yr AHNE bellach ddau swyddog amaethyddol mewn swydd, a'u bod nhw wedi ymweld â ffermydd llaeth mawr a ffermydd defaid a'u bod nhw'n cadw cysylltiad cyson â'r gymuned amaethyddol. Wrth grynhoi, dywedodd y Cadeirydd y byddai'r AHNE yn ystyried yr holl sylwadau gan gynnwys: -

- Nad oedd rhai grwpiau wedi cyfarfod o ganlyniad i faterion o bwys yn cynnwys Covid a thanau rhostir, ac yr oedd aelodau wedi parchu amser swyddogion.
- Roedd yn hollbwysig fod yr AHNE yn cydweithio â'r ystadau mawr, ffermydd a thyddynnau a choedwigaeth.
- Cafodd Fforwm Treftadaeth Gogledd Ddwyrain Cymru a Chymdeithas Twristiaeth Sir y Fflint eu hawgrymu'n grwpiau allanol posibl a allai gyfrannu at y Bartneriaeth.
- Roedd rhaglenni â ffocws iddynt a Chylch Gorchwyl yn hanfodol ar gyfer pob Grŵp.
- Cysylltiad â'r gwasanaeth iechyd – gallai gweithwyr iechyd proffesiynol o bosibl fod yn grŵp ar wahân - 'Iechyd a Lles'.

Gofynnodd y Cadeirydd a fyddai'r aelodau'n cymeradwyo'r argymhelliad yn ymwneud â dyfodol y Gweithgorau. Cafodd hyn ei gytuno a'i gadarnhau.

Camau Gweithredu

- Unrhyw grwpiau allanol a allai gyfrannu at y Bartneriaeth i gael eu dwyn i sylw Karen.
- Gwybodaeth am y Gweithgorau newydd i gael ei hanfon ar e-bost at yr holl aelodau i nodi pa grŵp y maen nhw'n dymuno bod yn rhan ohono.

**9. Adolygiad/Diweddariad Cyffredinol gan Swyddog yr AHNE yn cynnwys Statws Parc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru**

Dywedodd Swyddog yr AHNE, Howard Sutcliffe, fod y Grid Cenedlaethol wedi cael Gwobr AHNE Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy yn ddiweddar yn Siop Gymunedol Llandegla. Roedd y Grid Cenedlaethol bellach yn ystyried defnyddio'r AHNE yn brosiect peilot ar gyfer eu hisadeiledd yn y DU. Roedden nhw hefyd yn ystyried grid Cyswllt Môr newydd. Dywedodd Howard fod y Grid Cenedlaethol wedi darparu llwybr incwm parhaus ar gyfer yr AHNE, a'i bod yn siomedig nad oedd Ofwat ac Ofcom mor gydnaws i weithio â nhw. Soniodd aelod am yr angen i ystyried goblygiadau archeolegol gosod llinellau trydan o dan y ddaear ac y dylai hyn fod yn ystyriaeth bwysig mewn unrhyw gais.

4a <u>Parc Cenedlaethol ar gyfer Gogledd Ddwyrain Cymru</u>

Roedd Swyddog Arweiniol Cyfoeth Naturiol Cymru, Ash Pearce, wedi cyflwyno diweddariad ysgrifenedig ar 7 Mawrth (a ddosbarthwyd ymlaen llaw). Roedd Ash yn cyfarfod â Lesley Griffiths AS yn rheolaidd a byddai'n rhoi diweddariad arall yng Nghyfarfod nesaf y Cyd-bwyllgor sydd i fod i gael ei gynnal ar 23 Mehefin. Nododd Howard ei fod wedi ymddangos ar newyddion ITV yn ddiweddar i egluro rhai o'r cyfleoedd y byddai Parc Cenedlaethol yn eu cynnig i'r ardal. Roedd perchennog tir a pherchennog busnes lleol a gafodd sylw hefyd yn cefnogi'r dynodiad arfaethedig. Fodd bynnag, roedd gan un ffermwr farn negyddol am y Parc Cenedlaethol. Roedd Howard yn bwriadu cyfarfod ag ef i drafod y pryderon yr oedd wedi'u mynegi.
Roedd nifer o ymweliadau safle wedi'u cynnal â ffermydd a chymunedau ffermio. Roedd Howard, Mari Jones a Huw Morgan hefyd wedi mynd i gyfarfod dros frecwast ag Undeb Amaethwyr Cymru.

<u>Ymestyn ffin yr AHNE</u>

Gallai ardal i'r de o Gastell Powys gael ei hystyried ar gyfer cael ei ymestyn. Roedd Castell Powys yn amlwg yn y rhan ddeheuol. Fodd bynnag, nid oedd y ffin wedi'i chadarnhau hyd yma.

Cafwyd trafodaeth a holodd aelod sut y gallai'r gymuned ffermio fynegi eu pryderon os nad ydyn nhw o blaid cael Parc Cenedlaethol, a beth fyddai'r cyfyngiadau cynllunio. Ymatebodd y Cadeirydd drwy ddweud y byddai

llawer o gyfleoedd ar gyfer ymgynghoriadau cyhoeddus. Fodd bynnag, dylai cymunedau ffermio bach ystyried y cyfleoedd a'r posibiliadau y gallai Parc Cenedlaethol eu cynnig yn gyntaf. O ran caniatâd cynllunio o fewn Parc Cenedlaethol, ni fyddai'r broses yn wahanol iawn i'r ddeddfwriaeth gynllunio bresennol sydd eisoes ar waith gan yr AHNE, ond byddai llawer mwy o gyfleoedd i greu incwm.

4b Cronfa Ffyniant Bro

Gofynnwyd am y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau'r Gronfa Ffyniant Bro. Eglurodd Rheolwr Ardal yr AHNE, David Shiel, fod ystyriaeth yn cael ei rhoi ar hyn o bryd i sut mae'r AHNE yn rheoli Parc Gwledig Loggereads a Moel Famau. Eglurodd bod y cwt Bugail ym Mhen Barras, Moel Famau wedi bod yn llwyddiant ysgubol, a bod cael staff yno wedi cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad ymwelwyr. Fodd bynnag, roedd halio'r cwt i Ben Barras bob dydd yn achosi problemau, ac yr oedd sefydlu canolbwynt parhaol ym Mhen Barras yn cael ei ystyried. Byddai canolbwynt yn sicrhau rhyngweithio llawer gwell â'r cyhoedd sy'n ymweld. Byddai ystyriaeth fawr yn cael ei rhoi i gynaliadwyedd, lleoliad tirwedd a dyluniad unrhyw adeilad arfaethedig.
Terfyn amser y prosiect oedd Mawrth 2025.
Cyfeiriodd aelod at y Sill, Canolfan Darganfod Tirwedd Genedlaethol, Parc Cenedlaethol Northumberland fel enghraifft dda.

**10. Unrhyw Fater Arall**

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi pasio deddf sy'n golygu y byddai'r terfyn cyflymder ar bob ffordd sy'n 30 mya yn gostwng i 20 mya ar 17 Medi – os oedd gan unrhyw aelodau bryderon, yn awr oedd yr amser i fynegi'r rhain.
- Holodd aelod pam nad oedd cynnydd wedi'i wneud ar lain o dir yn Llanarmon yn Iâl sydd wedi ei gynnwys yn y Cynllun Datblygu Lleol. Eglurwyd bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn pryderu am y lefelau uchel o ffosffadau yn afonydd Cymru a bod hyn yn oedi nifer o ddatblygiadau ar hyn o bryd.
- Taith Coed Bell – Roedd y Ceidwad Ardal, Steve Williams, wedi arwain taith gerdded yn ddiweddar, mewn partneriaeth â'r Cyfeillion. Roedd yn ddiwrnod llwyddiannus iawn. Roedd gan y Cyfeillion raglen lawn o ddigwyddiadau yn awr.
- Bws ETD - byddai'r gwasanaeth bws sy'n rhad ac am ddim yn rhedeg hyd at fis Hydref ac mae'r manylion i gyd ar wefan yr AHNE. https://www.clwydianrangeanddeevalleyaonb.org.uk/projects/y-bws-darluniadwy/?lang=cy
- Gwastraff Dŵr Cymru – mynegodd aelod bryderon ynglŷn â gorlifoedd carthion i'r afonydd, gan ychwanegu bod 2.4 miliwn o gyllid ychwanegol wedi'i roi i Dŵr Cymru i gynorthwyo â'r broblem. Gofynnodd sut yr eir i'r afael â hyn.
  Ymatebodd Howard drwy ddweud fod y gwaith dŵr gwastraff yng Nghorwen yn cael ei ddiweddaru. Cynigiwyd y dylid gwahodd cynrychiolydd o Dŵr Cymru i'r cyfarfod Partneriaeth yn y dyfodol.

**11. Crynhoad y Cadeirydd**

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn edrych ymlaen at y digwyddiad a fydd yn cael ei gynnal yn Ninas Brân a'i fod yn gobeithio y byddai'r cais o gael estyniad i'r prosiect Ein Tirlun Darluniadwy yn llwyddiannus. Gan dynnu sylw at faterion y Cynllun Rheoli, yr oedd David a Ros wedi drafftio cynllun o'r Gweithgorau a fyddai'n cael ei anfon ar e-bost i'r aelodau. Yna byddai modd iddyn nhw benderfynu pa grŵp/grwpiau'r hoffen nhw fod yn rhan ohonynt. O ran y cynnig am Barc Cenedlaethol, dywedodd y Cadeirydd y byddai pryderon, ond ei fod yn gobeithio y byddai mwyafrif y bobl o blaid y statws oherwydd y byddai'n cynnig cyfleoedd gwych i'r ardal. O ran y Gronfa Ffyniant Bro, roedd y Canolbwynt arfaethedig ym Mhen Barras yn swnio'n gyfleuster gwych

**12. Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol**

| | | |
|---|---|---|
| Fforwm Aelodau Lleol a'r Gymuned a Chefnogwyr yr AHNE | Ddydd Iau 15 Mehefin | Ystafell Gyfarfod Loggerheads |
| Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE | Dydd Gwener 23 Mehefin 2023 | CBSW / cyfarfod ar-lein |
| Cyfarfod Partneriaeth yr AHNE | Dydd Gwener 20 Hydref 2023 | I'w drefnu |
| Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE | Dydd Gwener 17 Tachwedd 2023 | CSyFf i'w gynnal |
| Fforwm Aelodau Lleol a'r Gymuned a Chefnogwyr yr AHNE | Dydd Iau 7 Mawrth 2024 | I'w drefnu |

| | | |
|---|---|---|
| Cyfarfod Partneriaeth yr AHNE | Dydd Gwener 15 Mawrth 2024 | I'w drefnu |
| Cyfarfod Cyd-bwyllgor yr AHNE | Dydd Gwener 12 Ebrill 2024 | Cyngor Sir Ddinbych i'w gynnal |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

**Prosiect Ein Tirlun Darluniadwy 2018-23**
**Llwyddiannau Allweddol**

Daeth y Prosiect â phartneriaeth gadarn ynghyd rhwng Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy, Cyngor Sir Ddinbych, Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam, Cyngor Swydd Amwythig, Cyfoeth Naturiol Cymru, Cadwyn Clwyd, Glandŵr Cymru a Chyfeillion Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy.

Cyflwynir y prosiectau allweddol yn y tabl isod; daeth y rhan helaeth o'r £2,000,000 o gyllid y prosiect o Gronfa Treftadaeth y Loteri a'r gweddill gan Lywodraeth Cymru, CADW, Cadwyn Clwyd, Glandŵr Cymru, Cyngor Sir Ddinbych a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

| **Prosiect** | **Gwaith a gyflawnwyd** | **Cyfanswm y gwariant** |
|---|---|---|
| Gwella'r Olygfa | • Gwaith sylweddol i wella'r coetir rhwng **Traphont Ddŵr Pontcysyllte**, hybu iechyd y goedwig ac adfer golygfeydd allweddol a oedd yn rhan o'r cofrestriad Safle Treftadaeth y Byd.<br>• Gwaith i wella chwech o safleoedd eraill, sef **Pen y Pigyn, Rhaeadr y Bedol, Moel Tan y Coed, Caer Drewyn, Cefn Mawr a Throeon y Berwyn.** | £55,692 |
| Porthdy Dinas Brân | • Y **cloddiad archaeolegol** cyntaf a gofnodwyd.<br>• **Adnewyddu tŵr y porthdy**, a'i agor i'r cyhoedd am y tro cyntaf ers degawdau. | £142,111 |
| Adfer Treftadaeth Ddiwydiannol | • Adnewyddu hen **Gytiau'r Fforddolwyr** yn Rhaeadr y Bedol a Basn y Fron.<br>• Adnewyddu **adeilad y pwmp gwasgu** yng ngerddi Plas Newydd. | £55,336 |
| Cysylltu Cynefinoedd | • Rhoi grantiau i **naw o berchnogion tir** i wella cysylltiadau rhwng cynefinoedd ac adfer nodweddion traddodiadol o'r tirlun.<br>• Adnewyddu **1,917 metr o berthi**. | £40,683 |

| | | |
|---|---|---|
| | • Cyhoeddi llyfr arfer orau ar gyfer **Cynefinoedd Ffridd**. | |
| Wernffrwdd, Llangollen | • Creu **gwarchodfa natur newydd a hygyrch**. (Yn gysylltiedig â'r feddygfa leol) | £428,478 |
| Gwasanaeth Bws Darluniadwy | • Darparu gwasanaeth bws camu 'mlaen a chamu ffwrdd **am dri thymor** yn llwyddiannus rhwng y prif gyrchfannau i ymwelwyr yn Nyffryn Dyfrdwy. | £37,277 |
| Gwella Hygyrchedd | • Creu **llwybr newydd drwy'r goedwig** rhwng cymuned Trefor a'r llwybr halio ar lan y gamlas, gan gynnwys deunydd dehongli'n manylu ynghylch arwyddocâd y safleoedd mewn hanes diwydiannol.<br>• Creu **tri o lwybrau cerdded â deunydd dehongli** ynghyd â thaflenni. | £37,120 |
| Hygyrchedd yn Rhaeadr y Bedol | • Creu **golygfan newydd** na fedrai'r cyhoedd ei gyrraedd o'r blaen. | £33,394 |
| Dehongli'r Tirlun | • **Paneli dehongli** newydd ar hyd yr 11 milltir o'r Safle Treftadaeth y Byd.<br>• Cynhyrchu **deunydd dehongli digidol**, gan gynnwys taith rithiol yn hedfan dros Ddyffryn Dyfrdwy ar wahanol gyfnodau mewn amser; amgylcheddau Realiti Estynedig sy'n galluogi pobl i weld rhai o'r prif safleoedd yn yr ardal fel yr oeddent yn y gorffennol; cyfres o ffilmiau am fywydau Menywod Llangollen.<br>• Creu ***camera obscura* teithiol** ar gyfer digwyddiadau dehongli.<br>• Trefnu **arddangosfa pan ddaw'r prosiect i ben** ar gyfer mis Medi 2023. | £140,058 |
| Adfer y Glyn | • **Gwella hygyrchedd** yn sylweddol yn y glyn ym Mhlas Newydd, Llangollen, gan gynnwys llwybrau, canllawiau a meinciau.<br>• **Adfer nodweddion treftadaeth**, gan gynnwys yr hafoty ac adeilad y pwmp gwasgu. | £48,787 |

| | | |
|---|---|---|
| Ymgysylltu â Phobl Ifanc | • Darparu **13 o brosiectau** mewn ysgolion lleol gan gynnwys amryw weithgareddau a themâu.<br>• Cynnal **18 o ddiwrnodau Ceidwaid Ifanc**.<br>• Ymgysylltu â mwy na **1,300 o bobl ifanc** yn ystod y prosiect.<br>• Creu **adnoddau addysgol** ar gyfer ysgolion. | £12,893 |
| Celf wedi'i Ysbrydoli gan y Tirlun | • Comisiynu **pedwar o artistiaid preswyl** i greu casgliad amrywiol o ryddiaith a barddoniaeth ym mlwyddyn 3.<br>• Cynnal **15 o weithdai cymunedol** a**10 o brosiectau mewn ysgolion** dan arweiniad artistiaid, gan **ymgysylltu** â mwy na **250 o bobl**. | £53,717 |
| Cymunedau Ymgysylltiol | • Cynnal **90 o ddigwyddiadau cymunedol** yn ystod oes y prosiect.<br>• Denu mwy na **2,300 o bobl** i gymryd rhan yn nigwyddiadau Ein Tirlun Darluniadwy.<br>• Denu mwy na **500 o bobl i wirfoddoli** ar brosiectau Ein Tirlun Darluniadwy. | £36,147 |
| Estyn Allan | • Cynnal mwy na **30 o ddigwyddiadau estyn allan penodol** gyda grwpiau targed.<br>• Denu mwy na **300 o bobl** yn y cynulleidfaoedd targed i gymryd rhan yn y digwyddiadau. | £7,565<br><br>Cyfanswm<br><br>£1,133,000 |

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

# Our Picturesque Landscape Project

# Steering Group Meeting Minutes,

# Caffi Wylfa, Glyn Wylfa,

# Castle Road, Chirk.

# Tuesday 23rd May, 2023 10am to 12pm.

**Members Present**

Howard Sutcliffe (HS, **Chair),** David Shiel (DS), Alun Price (AP), Del Roberts Jones (DRJ), Hannah Marubbi (HM), Ffion Roberts (FR), Jillian Howe (JH), Kate Thomson (KT), Sallyanne Hall (SH), Fiona Gale (FG), Fiona Grant (FGr), Mike Bather (MB),

**Apologies**

Samantha Williams (SW), Andrea Fox (AFX), Huw Rees (HR), Lynne Jones (LJ), John Roberts (JR), Nicola Lewis-Smith (NLS), Rhun Jones (RJ), Paul Evans (PE),.

| | | |
|---|---|---|
| **1. Welcome and Apologies** | All welcomed to the meeting and apologies noted. | **Actions** |
| **2. Minutes of last meeting update** | The job share for the project managers is working very well between Hannah Marubbi and Kate Thomson.<br>The management and maintenance plan for the project has not yet been produced and will be shared with the group once progress is made.<br>The project has been appointed a new investment manager who will help to plan and develop format for this document. | |
| **3. Project Risk Register** | Copies of the risk register were circulated to the group. HM took the group through the document and the outstanding projects.<br>**<u>Dinas Bran Gatehouse</u>** | |

| | | |
|---|---|---|
| | This project is currently behind schedule as should have been completed.<br>The 1st of July Dinas Bran /Camera obscura event will take place, and it would be good if the scaffolding was removed and we were able to open up the gatehouse as intended. The use of quadbikes by the contractors has damaged the grass slopes which needs to be rectified in the autumn. The contractors have not been back to the site to complete the work. DS to contact Reclessia<br><br>**Restoring our Industrial Heritage**<br>Most of these projects have now been completed.<br>An underspend in Restoring our Industrial heritage means that funds have been directed to the lengthsman's hut in Froncysyllte basin that have restored the front of this building. The roof and the back of the building and the wooden doors have been left for restoration in the future. MB to investigate funding for the doors.<br>**Ram Pump Building**<br>Work is now continuing on the Ram pump building at Plas Newydd. The building will be restored but the mechanism itself will need additional funding in the future to complete. The team hope to have volunteer days working with the contractor and some dates are in the pipeline. It is hoped this will lead to volunteers to work on the bog garden around the site.<br><br>**Panorama Management**<br>Ranger Morgan is taking the lead on gaining owners consent and signage needs for this site. Estimates for the signs are in hand with a contactor. Manufacture and installation expected before August 2023.There are bio diversity and further clean up campaigns planned for the summer.<br><br>**Wenffrwd Pocket Park**<br>The park has been well received and the access to canal towpath is progressing through Levelling Up funding, tender for work currently on Sell2Wales. There is a Park Run trial on the 17th June.<br><br>**Picturesque Circular Trails**<br>A few of the trails remain unfinished.<br>*Artists and Engineers* walk is almost ready to launch. The infrastructure has started to go in, and the Rangers have been working with volunteers to complete this task. The leaflet is complete.<br>A route has been identified for the *Cefn Mawr walk,* between the Pontcysyllte aqueduct, the viaduct and to Trevor Basin visitor centre. Some of the paths along this walk will be improved using the Levelling Up fund in 2023. The leaflet is currently being developed.<br>*The Chirk Walk*, the route has been agreed and way marker posts delivered and to be installed with volunteers in May and June. The leaflet design complete, content is to be finalised. | DS<br><br><br><br><br><br>MB |

| | | |
|---|---|---|
| | *Discover the Dee Valley Walks*, which was previously the Discover Corwen booklet. JH will redesign the leaflet and is currently waiting for some maps to be designed.<br>The Dee Valley AONB team plan to meet up for guided walks fortnightly so can use some of OPL's routes.<br><br>**<u>Interpreting the Landscape</u>**<br>Along the World Heritage Site, the interpretation panels have now been installed. There have been a few issues with the height of the Gledrid and Fron signs. The Steering group will be viewing the ones in Chirk Marina and Station Road, Chirk after the meeting today. The Llangollen interpretation sign may need to be re orientated after a complaint, and it may need a finger post for direction purposes.<br>WOW Factor Interpretation have been appointed to deliver four interpretation panels at the Horseshoe Falls and Wharf, in a consistent style with the panels for the rest of the WHS. First drafts have been submitted.<br>MB made the observation that the interpretation panel outside of the Glyn Wylfa building car park looked tatty and would be an opportunity to tie this in with all the other style of panels and could be something that may be a consideration if the project were granted an extension?<br><br>**<u>Education Packs</u>**<br>SH leading on this project and has been mindful of not replicating any of the items on the WHS website. Muddy Publishing have worked with CRT and WHS, and the aim of the packs is to compliment the work on these sites. Local schools in the project area have been trialling the packs and have received very positive feedback.<br>Sue Williams at NRW – SH to make contact with her regarding cross conversations regarding this project | SH |
| **4. Final Exhibition update.** | **<u>Final Exhibition</u>**<br>The gallery space in Llangollen has been booked for this event, and the team are working with a curator to help come up with a floor plan for the exhibition. The exhibition will be over 3 weeks which will showcase the artwork and other aspects produced during the life of the project. Workshops, talks and interactive projects will are being arranged, and a discussing was had by the group regarding a suitable person to open the exhibition and form a suitable guest list for the first night.<br>Team to source someone to open the event and a Minister responsible for Heritage Lottery Funding | HM / KT / DS /SH JH/ FR |
| **5. The Project Legacy Book.** | The final book will feature images and writing. Local writer Jessica Hatcher- Moore has been commissioned to narrate the book, bringing together writers, travellers and artists. Image licences are being sourced, quotes are in hand for the design and production, and we hope to have the book ready for the launch during the exhibition. | |

| | | |
|---|---|---|
| **6. Project Extension Plan.** | **<u>Application for Project Extension</u>**<br>There is to be a meeting next month with the new Investment Manager for the Lottery to look at how the project may be continued and for how long. There is no formal method of applying for an extension, but our underspend means we would like additional time to complete all aspects of the project. We will update the group as soon as there is any news. | |
| **7. AOB** | HS mentioned that HM had sent him a bullet point list of all the work the project has completed. He found this a valuable tool to see at a glance all of the good work done and suggested it could be a good method of a list of achievements for the final exhibition. | |
| **7. Date of Next Meeting** | **Next meeting will be during late July /August 2023 – DATE AND VENUE TBC..** | FR |

Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy
Clwydian Range and Dee Valley
Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol
Area of Outstanding Natural Beauty

**Crynodeb o Geisiadau Cynllunio AHNE**
**2022-23**

Mae'r canlynol yn grynodeb o Geisiadau Cynllunio a dderbyniwyd gan Swyddog Cynllunio'r AHNE o'r tri Awdurdod Lleol a thrydydd parti.

Caiff yr holl ymatebion i ymgynghoriadau eu cynnal yn unol â'r cynllun dirprwyo a ddiwygiwyd ar gyfer ymdrin â chynigion cynllunio a chynigion yn ymwneud â datblygu, mewn cysylltiad â Gweithgor Cymeriad Tirwedd ac Amgylchedd Adeiledig Partneriaeth yr AHNE. Yn absenoldeb unrhyw ymgynghoriad ffurfiol ar faterion polisi, newidiadau deddfwriaethol perthnasol a chynigion datblygu mawr, ni fu'r Gweithgor yn cyfarfod yn ystod y 12 mis blaenorol. Fodd bynnag, rhagwelir cyfarfodydd eleni o ganlyniad i ymgynghoriad ar Fersiwn CDLl Sir Ddinbych i'w Archwilio gan y Cyhoedd a phenderfynu ar rai ceisiadau cynllunio mawr sydd heb eu penderfynu o ganlyniad i faterion yn ymwneud â ffosfforws a'r effaith ar Ardal Gadwraeth Arbennig ddynodedig Afon Dyfrdwy.

**Ymgynghoriadau Cynllunio**

Mae'r amgylchedd adeiledig yn un o nodweddion arbennig yr AHNE ac mae'n cyfrannu tuag at gymeriad ac ymddangosiad yr ardal.  Mae yna bwysau am ddatblygiadau newydd yn yr AHNE a'r ardal o amgylch oherwydd bod yr ardal yn lle atyniadol i fyw, gweithio ac ymweld â hi, ac mae angen gofal arbennig er mwyn sicrhau bod unrhyw ddatblygiad amhriodol yn cael ei wrthwynebu a bod datblygiad newydd o'r safon uchaf ac yn parchu ansawdd y dirwedd. Rôl allweddol y Cyd-bwyllgor a'r Bartneriaeth yw cynghori ar bolisïau datblygu a chynigion sy'n effeithio'r AHNE.

Cyfanswm yr ymgynghoriadau a oedd yn cyfeirio at yr AHNE yn 2022/23 oedd 251 a oedd yn ostyngiad sylweddol o'r 345 a dderbyniwyd yn ystod 2021/22. Fodd bynnag roedd ffigwr y llynedd yn gymharol uchel wrth gymharu â'r blynyddoedd diweddar. Ceisiadau a atgyfeiriwyd gan y tri Awdurdod Cynllunio Lleol oedd y rhan fwyaf o ymgynghoriadau. Yn ôl y disgwyl, ac yn unol â'r blynyddoedd diweddar roedd y mwyafrif **221 (88%) o Sir Ddinbych**, gyda **Sir y Fflint 25 (10%)** yn dilyn a **Wrecsam 5 (2%).** Roedd ymgynghoriadau eraill yn cynnwys nifer ansylweddol o apeliadau cynllunio (2) a Phrosiect Isadeiledd Sylweddol Cenedlaethol y tu allan i'r ardal ddynodedig.

Mae'r ymgynghoriadau cynllunio yn ymwneud ag ystod eang o feysydd fel y nodir isod.

| Categori | Cyfran o Geisiadau |
|---|---|
| Ceisiadau Deiliad Tŷ | 41% |
| Preswyl, gan gynnwys trawsnewid | 21% |
| Datblygiad sy'n ymwneud â thwristiaeth | 16% |
| Amaethyddiaeth / coedwigaeth | 10% |
| Ceisiadau'n ymwneud ag ynni | 2% |
| Arall, mwynau, arwyddion, telathrebu | 10% |
| **Cyfanswm** | **100%** |

**Ymgynghoriadau Cyn Ymgeisio**

Er gwaetha'r gostyngiad ymylol mewn ymgynghoriadau ar geisiadau cynllunio mae yna gynnydd o 11% wedi bod yn y nifer o ymgynghoriadau cyn cyflwyno cais yn ystod y 12 mis blaenorol. Mae hyn wedi cynnwys cyfarfodydd gydag ymgeiswyr/datblygwyr i wella ansawdd y cynlluniau datblygu cyn cyflwyno ceisiadau'n ffurfiol. Mae'n cynrychioli arfer da ac yn galluogi'r Cyd-bwyllgor i gael mwy o ddylanwad ar wella dyluniad ayb yn gynharach yn y broses gynllunio. Mae'r duedd hon yn cael ei hannog yn fawr gan ei bod yn meithrin perthnasoedd gwaith da gydag Awdurdodau Cynllunio Lleol a budd-ddeiliaid allweddol o ran hyrwyddo canlyniadau o well ansawdd a gwelliant o ran ymddangosiad datblygiad newydd, yn fwyaf nodedig cynlluniau tai o fewn yr AHNE a sy'n ffinio â'r ardal.

**Rhyddhau Amodau Cynllunio**

Hefyd mae yna gynnydd wedi bod yn y nifer o ymgynghoriadau'n ymwneud â rhyddhau amodau. Mae hyn o gymorth gan ei fod yn galluogi'r Cyd-bwyllgor i wneud sylwadau ar y manylion, ond yn bwysicach mae'n sicrhau ein bod yn parhau i gael ein cynnwys, a gall ddylanwadu ar faterion rydym wedi eu codi neu wedi gofyn amdanynt fel amodau fel rhan o'n hymateb cychwynnol i'r ymgynghoriad.

